



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer lechyd a gofal cymdeithasol

Cyflwyniad a chanllawiau

Hydref 2019



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Manylion cyswilt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru



@GofCymdeithasol

© 2018 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Rhagair ar gyfer cyflogwyr a rheolwyr

Mae'n rhaid i bob gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol, boed fawr neu fach, roi cyfnod sefydlu i'w holl weithwyr newydd. Dylech werthfawrogi pwysigrwydd cyfnod sefydlu sydd wedi'i gynllunio'n dda a'i ystyried yn ofalus, a'r effaith gadarnhaol a gaiff ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Mae cyfnod sefydlu da yn sicrhau bod gweithwyr yn deall pwysigrwydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r gwerthoedd sy'n sail i waith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd cyfnod sefydlu sydd wedi'i strwythuro'n dda yn helpu gweithwyr i setlo a bod yn fwy effeithiol yn eu swydd hefyd. Gall wella ymroddiad gweithiwr a boddhad mewn swydd, a chael effaith gadarnhaol ar leihau trosiant staff.¹

Mae *fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* (y fframwaith sefydlu) yn creu sylfaen gadarn i weithwyr newydd i'w helpu i ddatblygu eu hymarfer a'u gyrfa yn y dyfodol, yn ac ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn rhoi dealltwriaeth glir i chi o'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd rydych eu hangen i sicrhau bod gweithwyr newydd yn ddiogel ac yn gymwys i ymarfer, yn y cyfnod hwn o'u datblygiad.

Cefndir

Mae'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol wedi bod ar gael fel adnodd Cymru gyfan ers 2001². Mae'n nodi'r canlyniadau dysgu y dylai gweithwyr sy'n ymuno â'r sector gofal cymdeithasol, sefydliad newydd neu sy'n ymgymryd â swydd newydd, eu cyflawni o fewn 12 wythnos gyntaf eu cyflogaeth.

Mae Fframwaith Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd y GIG³ ar gael ers 2015 ac mae'n darparu safon y cytunwyd arni'n genedlaethol ar gyfer gwybodaeth, sgiliau a datblygiad gyrfa'r gweithlu gweithwyr cymorth gofal iechyd clinigol yn GIG Cymru. Mae'r fframwaith yn cefnogi datblygiad swyddi heddiw ac yn y dyfodol drwy safoni cwmpas y swyddi hyn. Mae'n nodi'r llwybrau addysgol a'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr i ymarfer yn ddiogel a chefnogi datblygiad gyrfa, gan gynyddu proffesiynoldeb y gweithlu. Mae'n cynnwys sefydlu, cymwyseddau craidd, sgiliau hanfodol a chymwyseddau swydd benodol sy'n ofynnol ar gyfer swyddi gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Mae'r fframwaith sefydlu newydd hwn ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymorth gofal iechyd⁴. Mae'n cynnwys gofal a chymorth i oedolion, a phlant a phobl ifanc. Mae'n darparu strwythur ar gyfer proses sefydlu gyffredin ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru ac yn amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau mae gweithwyr newydd angen eu hennill yn ystod eu chwe mis cyntaf mewn cyflogaeth. Er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y naill ran o'r sector a'r llall, ychwanegwyd adran newydd ar iechyd a lles. Newidiwyd teitl y fframwaith sefydlu hefyd i *fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol*.

1 Induction Factsheet, CIPD

2 Fersiynau Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol, Fersiwn 1 – 2001, Fersiwn 2 – 2004, Fersiwn 3 – 2008, Fersiwn 4 – 2012 (diwygiwyd 2016), Fersiwn 5 – 2018

3 Datblygu Rhagoriaeth mewn Gofal Iechyd: Fframwaith Datblygu Sgiliau a Gyrfa GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i gefnogi Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (2015)

4 Cyflogwyd gan GIG Cymru

Yn 2016, cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol. Un o argymhellion yr adolygiad hwn oedd datblygu cyfres newydd o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a fydd yn barod ym mis Medi 2019.

Mae cynnwys y fframwaith sefydlu diwygiedig yn adlewyrchu 'cynnwys craidd' y cymwysterau newydd. Bydd hyn yn creu cyfnod sefydlu cadarn ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol cyn iddynt ddechrau eu cymhwyster seiliedig ar ymarfer neu gymhwysedd galwedigaethol. Bydd hefyd yn sicrhau gweithwyr eu bod yn derbyn y dysgu a'r cymorth priodol yn ystod eu cyfnod cyntaf o gyflogaeth ac y gellir defnyddio hyn tuag at y cymwysterau maent angen eu hennill er mwyn ymarfer.

Mae cynnwys craidd y cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol newydd yn adlewyrchu safonau sefydlu a chymwyseddau craidd GIG Cymru y mae'n rhaid i weithwyr GIG Cymru eu cwblhau yn eu pythefnos cyntaf a'u chwe mis cyntaf o gyflogaeth.

Canllawiau i reolwyr

Pam defnyddio fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol?

Mae'r fframwaith sefydlu'n darparu sylfaen ar gyfer datblygu cyfnod sefydlu. Gellir ei ddefnyddio i strwythuro'r broses sefydlu neu fel sail ar gyfer eich rhaglen sefydlu gyfredol. Mae'r canllawiau statudol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaeth 36 yn datgan bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod ganddynt raglen sefydlu sy'n rhoi'r adnoddau i bob aelod newydd o staff i fod yn hyderus yn eu rolau ac ymarfer, a'u galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at les unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae gan bob cyflogwr gyfrifoldeb i sicrhau bod ei weithwyr newydd yn derbyn cyfnod sefydlu addas gan ddefnyddio'r fframwaith sefydlu hwn. Bydd y fframwaith hwn yn eich helpu chi a'r unigolion cyfrifol i ddangos bod gweithwyr yn cwblhau cyfnod sefydlu strwythuredig a chadarn i sicrhau bod y gofyniad rheoleiddio a'r monitro sy'n rhan o'r contract yn cael eu bodloni.

Cynlluniwyd a datblygwyd y fframwaith sefydlu fel y gellir ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal a chymorth, boed yn gweithio mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae yna ofynion rheoleiddio ychwanegol i rai grwpiau o weithwyr.

Mae'r rhain yn cynnwys:

Gweithwyr gofal preswyl plant

Mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal preswyl plant yng Nghymru gofrestru gyda ni. Gall gweithwyr heb un o'r cymwysterau hanfodol sydd wedi'u rhestru yn y Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru⁵ gofrestru cyn belled eu bod yn cwblhau'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol o fewn chwe mis.

Gweithwyr gofal cartref

O fis Ebrill 2020 ymlaen, bydd rhaid i bob gweithiwr gofal cartref (gweithwyr sydd wedi'u cyflogi mewn lleoliad gofal cartref rheoleiddiedig) gofrestru gyda ni. Mae mwy o wybodaeth am gofrestru gweithwyr gofal cartref ar ein gwefan. [hiips://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cofrestru-gweithwyr-gofal-cartref](https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cofrestru-gweithwyr-gofal-cartref)

Gweithwyr cartrefi gofal oedolion

O 2022 ymlaen, bydd angen i holl weithwyr cartrefi gofal oedolion gofrestru gyda ni. Fe fydd mwy o wybodaeth am gofrestru gweithwyr carefi gofal ar ein gwefan. [hiips://socialcare.wales/registration](https://socialcare.wales/registration)

Gweithwyr cymorth gofal iechyd clinigol

Mae'n rhaid i unrhyw weithwyr cymorth gofal iechyd newydd a gyflogir gan GIG Cymru sy'n cefnogi Nyrso a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd gwblhau proses sefydlu'r GIG Cymru ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd clinigol. Mae'n rhaid iddynt gwblhau'r broses sefydlu o fewn pythefnos cyntaf eu cyflogaeth a chyn iddynt ddechrau ymarfer. Mae'n rhaid iddynt gwblhau eu cymwyseddau craidd achrededig o fewn chwe mis hefyd a'u sgiliau swydd benodol o fewn 12 i 18 mis. Bydd y rhain yn rhoi cyfanswm o 46 credyd o leiaf.

5 [hiips://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau](https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau)

Mae'r fframwaith sefydlu'n darparu strwythur i'ch helpu chi fel rheolwr i olrhain cynnydd gweithiwr newydd. Mae hefyd yn eich helpu i nodi unrhyw bryderon, neu'r cymorth a'r datblygiad sydd eu hangen, er mwyn i'r gweithiwr gwblhau'r fframwaith sefydlu.

Beth mae fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn ei gynnwys?

Mae yna saith adran i'r fframwaith sefydlu:

- Adrannau 1 a 2: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion **neu** blant a phobl ifanc)
- Adrannau 3 a 4: Iechyd a lles (oedolion **neu** blant a phobl ifanc)
- Adran 5: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion **a** phlant a phobl ifanc)
- Adran 6: Diogelu unigolion (oedolion **a** phlant a phobl ifanc)
- Adran 7: Iechyd a diogelwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion **a** phlant a phobl ifanc).

Mae yna log cynnydd hefyd i gofnodi cyflawniad canlyniadau dysgu ym mhob adran.

Mae pob adran yn:

- nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen i weithwyr newydd eu hennill yn ystod eu cyfnod sefydlu. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau craidd sy'n berthnasol ym mhob lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud yn benodol â'u swydd a'r gweithle
- nodi'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n rhaid i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eu dangos.

Mae'r fframwaith sefydlu'n helpu gweithwyr newydd drwy:

- nodi'n glir beth a ddisgwylir ganddynt
- rhoi cyfle iddynt ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer ymarfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol – yn enwedig yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ofal a chymorth
- darparu cymorth ar gyfer rolau a chyfrifoldebau newydd a newidiol
- creu tystiolaeth y gellir ei defnyddio tuag at gyflawni'r cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer
- darparu tystiolaeth o wybodaeth a sgiliau y gellir eu trosglwyddo ar draws y sectorau.

Mae pob adran yn cynnwys y canlyniadau dysgu craidd y dylai pob gweithiwr eu cyflawni a'r canlyniadau dysgu swydd benodol ychwanegol.

Pa mor hir mae'n ei gymryd i gwblhau fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol?

Dylid gallu cwblhau'r fframwaith mewn chwe mis. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall gofaluwr maeth neu ofaluwr lleoliadau oedolion/cysylltu bywydau gymryd mwy o amser i'w gwblhau oherwydd y bwch rhwng dod yn ofaluwr cymeradwyedig a'r cytundeb lleoliad cyntaf.

Yn yr un modd, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol gweithwyr maeth neu ofaluwr lleoliadau oedolion/cysylltu bywydau (fel mathau o ddarpariaeth seibiant/seibiant byr) yn eu gwneud hi'n anodd i gyflawni'r holl ganlyniadau dysgu o fewn chwe mis. Mewn achos o'r fath dylid darparu amser ychwanegol ac ni ddylid llofnodi i ddweud bod y gweithiwr wedi cwblhau'r fframwaith sefydlu nes iddo gyflawni'r holl ganlyniadau.

Dylai unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill gael eu hystyried ar y cyd gan gyflogwyr a rheoleiddwyr y gwasanaeth.

Pwy ddylai gwblhau fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol?

Gweithwyr sy'n newydd i'r sector

Dylai gweithwyr sy'n newydd i'r sector gwblhau'r dysgu a gynlluniwyd ar gyfer pump o'r saith adran (1, 3, 5, 6 a 7 i'r rhai sy'n gweithio gydag oedolion; a 2, 4, 5, 6 a 7 i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc). Bydd angen iddynt gwblhau/pasio'r asesiadau'n llwyddiannus ym mhob adran hefyd.

Mae angen i bawb gwblhau'r dysgu craidd, ond mae'r elfennau ymarfer yn benodol i swydd y gweithiwr. Er enghraifft, ni fydd disgwyl i rai nad ydynt yn cefnogi pobl drwy ofalu am eu traed i ddangos ymarfer yn y maes hwn.

Gweithwyr newydd mewn sefydliad

Ni ddylai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n newydd mewn sefydliad, ond sydd â thystiolaeth eu bod wedi cyflawni cymhwyster perthnasol a/ neu fframwaith sefydlu yn flaenorol orfod cwblhau'r fframwaith sefydlu cyfan. Gall tystiolaeth achrededig fod yn 'basbort' a rhoi'r hyder i chi bod y meysydd sefydlu neu ddysgu craidd cyffredin wedi'u cwblhau.

Dylech barhau i gyflwyno polisiau a gweithdrefnau eich gweithle neu'r swydd i weithwyr newydd, os nad ydynt wedi'u cwmpasu gan eu cymhwyster neu broses sefydlu flaenorol. Fel rheolwr, dylech hefyd gadw golwg ar sut mae'r gweithiwr yn defnyddio'r hyn y mae wedi'i ddysgu wrth ymarfer fel rhan o'r broses sefydlu.

Gweithwyr newydd â phrofiad blaenorol mewn sector gwahanol neu weithwyr sy'n dechrau swydd newydd

Os ydych chi'n rheoli gweithiwr sy'n symud ar draws gwahanol rannau o'r sectorau (e.e. o ofal cymdeithasol i oedolion i ofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc, neu o ofal iechyd i ofal cymdeithasol), dylech holi beth mae'r gweithiwr wedi'i gwblhau eisoes fel rhan o'i gymhwyster neu fframwaith sefydlu blaenorol.

Dylid mapio hyn yn erbyn gofynion eu swydd newydd i nodi bylchau. Er enghraifft, byddai gweithiwr gofal cymdeithasol i oedolion sy'n symud i weithio gyda phlant a phobl ifanc angen cwblhau adrannau 2 a 4 i ychwanegu at eu dysgu. Neu byddai gweithiwr gofal cymdeithasol i oedolion sy'n symud i ofal iechyd ac sydd wedi cwblhau'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol blaenorol angen cwblhau adran 3 ar iechyd a lles oedolion).

Sut mae'r fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cysylltu â chymwysterau?

Cysylltiadau â chymwysterau o fis Medi 2019 ymlaen

Ers mis Medi 2019, mae'r cymhwyster 'craidd' ar gyfer yr holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol lefel 2 a 3 yng Nghymru'n adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol o'r fframwaith sefydlu. Mae elfennau ymarfer y fframwaith sefydlu yn cael eu hadlewyrchu yn y cymwysterau ymarfer ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol hefyd. Felly wrth i weithwyr newydd gwblhau'r fframwaith sefydlu byddant yn dechrau casglu tystiolaeth y gellir ei defnyddio tuag at gyflawni'r cymwysterau y maent angen eu hennill er mwyn ymarfer.

Gweithlyfrau

I helpu i roi'r fframwaith sefydlu ar waith ac i gynorthwyo gweithwyr newydd i gynhyrchu rhywfaint o'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyflawni'r cymhwyster 'craidd', datblygwyd gweithlyfrau ar gyfer pob adran o'r fframwaith.

Mae'r gweithlyfrau'n cynnwys nifer o weithgareddau dysgu sy'n defnyddio astudiaethau achos, ffilmiau a chwestiynau ysgrifenedig i gefnogi dysgu. Fel rheolwr, efallai y byddwch am newid, defnyddio dysgu drwy brofiad neu ychwanegu at yr astudiaethau achos i adlewyrchu'r rhan o'r sector rydych yn gweithio ynddi. Fodd bynnag, mae yna amrywiaeth o astudiaethau achos ar gael ac mae modd trosglwyddo'r hyn a ddysgir o'r rhain ar draws swyddi a lleoliadau.

Nid yw'r gweithlyfrau'n ofyniad gorfodol ond gobeithio y byddant yn adnodd defnyddiol i chi fel rheolwyr a byddem yn argymhell y dylech eu defnyddio. Bydd cwblhau'r gweithlyfrau'n darparu tystiolaeth i reoleiddwyr y gwasanaeth eich bod yn cynnal prosesau sefydlu cadarn. Gall gweithwyr ei ddefnyddio fel tystiolaeth tuag at gyflawni cymhwyster hefyd. Os yw gweithlyfrau'n cael eu defnyddio fel tystiolaeth ategol ar gyfer cymhwyster, bydd angen i asesydd cymwysedig farnu'r dystiolaeth.

Defnyddio'r gweithlyfrau

Mae'r gweithlyfrau'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu ac asesu ac yn defnyddio astudiaethau achos a chlipiau ffilmiau i ysgogi a helpu'r dysgu. Fe'u bwriadwyd i'w defnyddio fel adnodd ar y we, pdf y gellir ei olygu a fersiwn word blaen.

Byddwch angen sicrhau bod gan eich gweithwyr fynediad i gyfrifiadur a'r rhyngrwyd i ddefnyddio fersiwn y we o'r fframwaith sefydlu.

Mae Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys saith gweithlyfr. Mae angen i'r rhai sy'n gweithio gydag oedolion gwblhau gweithlyfrau 1, 3, 5, 6 a 7. Mae angen i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gwblhau gweithlyfrau 2, 4, 5, 6 a 7. Mae pob gweithlyfr yn cwmpasu 'gwybodaeth graidd' a chanlyniadau dysgu ymarfer ychwanegol sy'n dangos sut mae'r gweithiwr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ei waith.

Gellir cwblhau'r wybodaeth graidd naill ai cyn i'r gweithiwr newydd ddechrau yn ei swydd (cyn cyflogaeth) neu ar ôl iddo ddechrau ei swydd. Dylid cwblhau'r fframwaith sefydlu o fewn chwe mis i'w dyddiad cychwyn os yw'n gyflogedig.

Mae'r gweithlyfrau'n cynnwys lle i'r gweithiwr gofnodi'r hyn mae'n ei ddysgu wrth fynd ymlaen ac i chi fel rheolwr gofnodi eich adborth. Gallech ddefnyddio gweithgareddau dysgu neu astudiaethau achos eraill eich hun yn ogystal â'r rhai yn y gweithlyfr. Cofiwch sicrhau bod y gweithiwr yn cofnodi unrhyw ddysgu ychwanegol yn ei bortffolio fel y gellir ei ddefnyddio tuag at y cymhwyster.

Geirfa

Mae yna eirfa sy'n cwmpasu'r holl weithlyfrau ac sy'n darparu diffiniadau o'r termau a ddefnyddir. Bydd unrhyw beth sydd wedi'i farcio mewn **teip trwm** yn cael ei gynnwys yma. Mae yna adran sy'n cynnwys dolenni a chyfeiriadau a allai fod yn ddefnyddiol i'r gweithiwr newydd hefyd. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau o dro i dro. Efallai bod rhai o'r cyhoeddiadau y gofynnwn i'r gweithiwr newydd edrych arnynt wedi'u cyhoeddi gennym ni neu GIG Cymru. Oni bai ein bod ni'n nodi fel arall bydd y rhain yr un mor berthnasol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynnydd y gweithiwr newydd

Wrth i'r gweithiwr newydd fynd drwy'r gweithgareddau dysgu yn y gweithlyfr bydd angen i chi gyfarfod ag ef i weld sut mae pethau'n mynd a thrafod unrhyw gymorth neu gefnogaeth ychwanegol angenrheidiol. Dylech gwblhau'r log cynnydd gyda'r gweithiwr newydd a darparu cymorth os oes unrhyw fylchau.

Mae'n bwysig bod y gweithiwr newydd yn cadw'r dystiolaeth mae wedi'i chasglu drwy gwblhau'r gweithlyfrau. Gellir defnyddio'r dystiolaeth hon tuag at y cymhwyster y bydd angen ei hennill er mwyn ymarfer, gan osgoi dyblygu'r hyn a ddysgir. Efallai y bydd cyrff rheoleiddio am gael sampl o'r rhain i sicrhau bod eich trefniadau sefydlu'n gadarn ac yn bodloni'n gofynion, neu rai GIG Cymru.

Rydym yn argymhell bod y gweithiwr newydd yn cadw'r gweithlyfrau, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall o ddysgu yn ei bortffolio datblygiad personol. Os bydd yn ei ddefnyddio tuag at gymhwyster bydd angen i'r asesydd weld a barnu'r dystiolaeth i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion y corff dyfarnu.

Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r dyfarniadau yn seiliedig ar y ddwy adran gyntaf o'r fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithiwr yn gallu ennill y dyfarniad drwy gwblhau cwrs ar lein fer yn llwyddiannus unai gydag oedolion neu blant a phobl ifanc. Mae'r cwrs yn cynnwys cwblhau gweithlyfr a phrawf cwestiynau amlddewis.

Gellir ddod o hyd i'r Dyfarniad Egwyddorion a gwerthoedd yma hiips://www.fframwaithsefydlu.cymru/Cefnogi ac asesu dysgu gweithwyr newydd

Cefnogi ac asesu dysgu gweithwyr newydd

Mae pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol. Mae croeso i chi ddefnyddio cymysgedd o weithgareddau dysgu i ddiwallu anghenion y gweithiwr newydd yn y ffordd orau, cyn belled eu bod yn bodloni'r canlyniadau dysgu sydd i'w gweld yn y fframwaith sefydlu. Gall y dulliau hyn gynnwys:

- mentora gan gydweithiwr mwy profiadol
- hyfforddi
- dysgu o bell
- e-ddysgu
- darllen dan arweiniad
- defnydd strwythuredig o oruchwyliaeth
- cysgodi
- rhaglenni a addysgir / hyfforddiant
- gwaith grŵp
- profiad ymarferol
- ymarfer myfyriol.

Rydym yn argymhell bod gweithwyr newydd yn dechrau gyda gweithlyfr 1 neu 2 – mae'r rhain yn cwmpasu'r adrannau am egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i ddarparu cyd-destun da ar gyfer y gweithlyfrau eraill. Gall gweithwyr symud yn ôl ac ymlaen rhwng gweithlyfrau gwahanol yn ystod hyfforddiant y cyfnod sefydlu. Mae hyn yn iawn, gan nad oes angen cwblhau'r gweithlyfrau yn eu trefn. Wrth i chi ddod yn fwy cyfarwydd â'r fframwaith sefydlu a chynnwys y gweithlyfrau bydd hi'n haws defnyddio dull cymysg.

Mae angen asesu gweithwyr newydd i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu'r fframwaith sefydlu'n llwyddiannus. Gall dysgu achrededig, fel y Dyfarniad L2 mewn Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru) neu unedau achrededig gweithiwr cymorth gofal iechyd, helpu gyda hyn.

Pwy sy'n gallu cefnogi gweithiwr gyda'i sefydlu?

Mae'n bwysig asesu yn erbyn canlyniadau dysgu swydd benodol neu weithle penodol, yn ogystal â'r defnydd o wybodaeth a enillwyd drwy'r cymwysterau mewn ymarfer. Gall amrywiaeth o bobl asesu canlyniadau dysgu'r fframwaith sefydlu, yn cynnwys:

- rheolwr llinell uniongyrchol y gweithiwr
- yr arweinydd tîm
- ei fentor
- y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo
- asesydd y cymhwyster⁶.

Fodd bynnag, lle mae hyn yn wasanaeth cofrestredig, eich cyfrifoldeb chi fel y rheolwr yw llofnodi'r dystiolaeth a chadarnhau bod y gweithiwr wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu ac wedi cwblhau'r fframwaith sefydlu i safon foddhaol. Mae'r log cynnydd yn adnodd defnyddiol y dylid ei ddefnyddio i gofnodi ac olrhain cyflawniadau'r gweithiwr newydd.

Pa ddulliau asesu sy'n gallu cael eu defnyddio i gefnogi'r gweithiwr gyda'i sefydlu?

Gellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu i farnu dealltwriaeth gweithiwr o'i swydd a'i gyfrifoldebau, a'i ymarfer, yn cynnwys:

- cwblhau'r gweithlyfrau
- cwestiynau ysgrifenedig neu lafar
- aseiniadau
- astudiaethau achos gyda chwestiynau
- cyflwyniadau
- profion
- arsylwi'n uniongyrchol ar ymarfer
- adborth gan eraill – er enghraifft, unigolion, gofalwyr, gweithwyr eraill
- cofnodion hunanasesu / myfyriol
- tystiolaeth o gymwysterau / hyfforddiant achrededig.

Manylir ar rai o'r rhain isod:

Cwestiynau dilynol: Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio cwestiynau 'dilynol' i brofi dealltwriaeth gweithiwr newydd yn fanylach. Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n egluro sut maent yn meddwl ac yn eu helpu i drafod eu teimladau.

Arsylwi'n uniongyrchol ar ymarfer: Bydd yr agwedd hon ar asesu'n darparu tystiolaeth o sut mae gweithiwr newydd yn cyflawni yn ei swydd a sut mae'n defnyddio ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth wrth ymarfer. Bydd adborth adeiladol am eu hymarfer yn helpu gweithwyr newydd i wybod sut maent yn dod ymlaen a deall y meysydd maent angen eu gwella mewn ffordd gefnogol.

6 Bydd angen i asesydd cymwysedig asesu'r dystiolaeth er mwyn iddi gael ei derbyn tuag at gymhwyster neu uned achrededig.

Adborth gan eraill: Gall adborth gan unigolion, gofalwyr a gweithwyr eraill fod yn fuddiol i weld sut mae'r gweithiwr newydd yn dod yn ei flaen. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n agored a chefnogol i ddysgu.

Myfyrio: Gellir gofyn i'r gweithiwr newydd gyflwyno enghraifft cysylltiedig â gwaith o rywbeth mae wedi'i wneud ac ystyried a aeth yn dda neu beidio, beth oedd y canlyniadau a beth wnaeth ei ddysgu o hyn. Mae'n ffordd dda o farnu a all gweithiwr bwysu a mesur tasgau a dysgu drwy fyfyrion a dadansoddi.

Canllawiau ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol

Cyflwyniad

Croeso i *fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* (fframwaith sefydlu). Bydd yr adnodd hwn yn eich helpu chi fel gweithiwr newydd, a'ch rheolwr, i strwythuro'ch cyfnod sefydlu a sicrhau eich bod yn gallu darparu gofal a chymorth yn hyderus a chymwys.

Beth yw diben sefydlu?

Gall y dyddiau a'r wythnosau cyntaf mewn swydd newydd fod yn gyffrous ac yn anodd wrth i chi ddod yn gyfarwydd â'ch swydd newydd. Bydd cyfnod sefydlu yn eich helpu chi i:

- ddeall eich swydd – beth sy'n ofynnol a pha gymorth y gallwch chi ei ddisgwyl
- dod i adnabod eich amgylchedd gwaith newydd a'r wybodaeth bwysig sydd ei hangen arnoch i gyflawni'ch swydd yn dda
- dod i adnabod eich cydweithwyr a datblygu perthynas waith dda
- deall beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r rhai y byddwch yn gweithio gyda nhw.

Mae sefydlu'n rhan bwysig o'ch datblygiad proffesiynol a bydd yn eich helpu i setlo yn eich swydd a bod yn effeithiol yn eich gwaith. Bydd cwblhau'r fframwaith sefydlu'n eich helpu i ennill, datblygu a chryfhau'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n hanfodol ar gyfer eich swydd ac ar gyfer ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol. Mae'n darparu sylfaen ar gyfer dysgu a datblygu yn y dyfodol, ac yn dangos y cynnydd rydych wedi'i wneud hyd yn hyn.

Bydd eich rheolwr yn amlinellu'r trefniadau sefydlu. Gall hyn gynnwys cael mentor neu 'gyfaill' a fydd yn gydweithiwr mwy profiadol i gefnogi'ch dysgu. Byddwch yn derbyn cefnogaeth drwy oruchwyliaeth reolaidd hefyd a fydd yn eich galluogi i fyfyrio ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a derbyn adborth ar eich cynnydd.

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan weithredol yn y broses sefydlu er mwyn cael y gorau o'r profiad dysgu hwn. Peidiwch â bod ofn gofyn cwestiynau gan fod hyn yn helpu i wirio eich dealltwriaeth ac yn eich helpu i ddysgu. Cofiwch nad oes y fath beth â chwestiwn 'twp'!

Gan mai model cyffredinol ar gyfer gweithwyr gofal a chymorth ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yw hwn, bydd angen i'ch rheolwr gynnwys dysgu sy'n benodol i'ch sefydliad a'ch lleoliad gwaith. Mae'r fframwaith sefydlu'n cynnwys llwybrau ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc, felly bydd angen i chi gwblhau'r adrannau sy'n berthnasol i'ch swydd. Os ydych yn newid swydd, bydd hi'n bwysig adolygu'r adrannau rydych wedi'u cwblhau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eich swydd newydd.

Beth mae fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn ei gynnwys?

Mae yna saith adran i'r fframwaith sefydlu:

- Adrannau 1 a 2: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion **neu** blant a phobl ifanc)
- Adrannau 3 a 4: Iechyd a llesiant (oedolion **neu** blant a phobl ifanc)
- Adran 5: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion **a** phlant a phobl ifanc)
- Adran 6: Diogelu unigolion (oedolion **a** phlant a phobl ifanc)
- Adran 7: Iechyd a diogelwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion **a** phlant a phobl ifanc)

Mae pob adran yn:

- nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen i chi fel gweithiwr newydd eu hennill yn ystod eich 6 mis cyntaf. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau craidd sy'n berthnasol ym mhob lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud yn benodol â'ch swydd a'r gweithle
- nodi'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n rhaid i chi eu deall a'u dangos yn eich gwaith
- cynnwys canlyniadau dysgu gwybodaeth craidd y dylai pob gweithiwr eu cyflawni yna canlyniadau dysgu sefydlu ychwanegol sy'n rhai swydd benodol.

Bydd y fframwaith sefydlu'n eich helpu drwy:

- nodi'n glir beth a ddisgwylir gennych chi
- rhoi cyfle i chi ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer ymarfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol – yn enwedig yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ofal a chymorth
- creu tystiolaeth y gellir ei defnyddio tuag at gyflawni'r cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer.

Pwy ddylai gwblhau fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol?

Cynlluniwyd a datblygwyd y fframwaith sefydlu fel y gellir ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal a chymorth, boed yn gweithio mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae yna ofynion rheoleiddio ychwanegol i rai grwpiau o weithwyr.

Mae'r rhain yn cynnwys:

Gweithwyr gofal preswyl plant

Mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal preswyl plant yng Nghymru gofrestru gyda ni. Gall gweithwyr heb un o'r cymwysterau hanfodol sydd wedi'u rhestru yn y Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru⁷ gofrestru cyn belled eu bod yn cwblhau'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol o fewn chwe mis.

Gweithwyr gofal cartref

O fis Ebrill 2020 ymlaen, bydd rhaid i bob gweithiwr gofal cartref (gweithwyr sydd wedi'u cyflogi mewn lleoliad gofal cartref rheoleiddiedig) gofrestru gyda ni. Mae mwy o wybodaeth am gofrestru gweithwyr gofal cartref ar ein gwefan. [hiips://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cofrestru-gweithwyr-gofal-cartref](https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cofrestru-gweithwyr-gofal-cartref)

Gweithwyr cartrefi gofal oedolion

O 2022 ymlaen, bydd angen i holl weithwyr cartrefi gofal oedolion gofrestru gyda ni. Fe fydd mwy o wybodaeth am gofrestru gweithwyr carefi gofal ar ein gwefan. [hiips://socialcare.wales/registration](https://socialcare.wales/registration)

Gweithwyr cymorth gofal iechyd clinigol

Mae'n rhaid i unrhyw weithwyr cymorth gofal iechyd newydd a gyflogir gan GIG Cymru sy'n cefnogi Nyrso a Phroffesiynau Perthynol i lechyd gwblhau proses sefydlu'r GIG Cymru ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd clinigol. Mae'n rhaid iddynt gwblhau'r broses sefydlu o fewn pythefnos cyntaf eu cyflogaeth a chyn iddynt ddechrau ymarfer. Mae'n rhaid iddynt gwblhau eu cymwyseddau craidd achrededig o fewn chwe mis hefyd a'u sgiliau swydd benodol o fewn 12 i 18 mis. Bydd y rhain yn rhoi cyfanswm o 46 credyd o leiaf.

7 [hiips://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau](https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau)

Pa mor hir mae'n ei gymryd i gwblhau fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol?

Dylid gallu cwblhau'r fframwaith mewn chwe mis. Os ydych yn ofalwr maeth neu ofalwr lleoliad oedolion/ cysylltu bywydau gall gymryd mwy na chwe mis i'w gwblhau oherwydd y bwlch rhwng dod yn ofalwr cymeradwyedig a'r cytundeb lleoliad cyntaf. Yn yr un modd, efallai y bydd gweithwyr maeth neu ofalwyr lleoliadau oedolion/ cysylltu bywydau ond yn cynnig gofal seibiant/seibiant byr ac mewn achos o'r fath bydd amser ychwanegol yn cael ei ddarparu i sicrhau eich bod yn gallu cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu.

Dechrau arni

Mae pob adran o'r fframwaith sefydlu'n cynnwys nifer o benawdau. O dan bob pennawd gallwch weld y canlyniadau dysgu gwybodaeth graidd y byddwch yn ymdrin â nhw cwmpasu yn ystod y cyfnod sefydlu. Byddwch yn cyflawni'r dysgu hwn drwy:

- fynychu hyfforddiant neu ddysgu ar y we
- darllen dan arweiniad
- trafodaeth un-i-un e.e. dan oruchwyliaeth
- arsylwi ar aelodau staff eraill
- cael mentor
- cyfarfodydd tîm.

Mae'r canlyniadau dysgu hyn yn cael eu troi yn ganlyniadau 'gwneud' – hynny yw, sut rydych chi'n dangos eich bod chi'n deall ac yn gallu rhoi'r hyn rydych wedi'i ddysgu am y pwnc neu'r maes ymarfer hwnnw ar waith. Efallai y bydd gofyn i chi ddangos beth rydych chi wedi'i ddysgu drwy:

- ateb cwestiynau, ysgrifenedig neu lafar
- rhywun yn arsylwi arnoch yn y gwaith
- myfyrio ar beth rydych wedi'i ddysgu a sut y gallwch wella'ch ymarfer ymhellach.

Dylid cynnwys unrhyw waith ysgrifenedig mewn portffolio. Gellir defnyddio tystiolaeth o gwblhau'ch fframwaith sefydlu tuag at ennill cymwysterau pellach ar gyfer eich swydd. Mae'n bwysig ei gadw'n ddiogel gan y bydd eich portffolio yn darparu tystiolaeth o'ch dysgu i'ch cyflogwr, rheoleiddwyr gwasanaethau a chyflogwyr eraill hefyd pe baech yn newid eich swydd yn y dyfodol.

Mae gan eich rheolwr gyfrifoldeb i sicrhau eich bod yn cael digon o amser a chefnogaeth i gwblhau'r fframwaith sefydlu.

Dylech ddangos beth rydych chi wedi'i ddysgu drwy gwblhau a diweddarau'r log cynnydd ar gyfer pob adran yn rheolaidd. Bydd y log cynnydd yn eich helpu chi a'ch rheolwr i gofnodi'ch dysgu a'r canlyniadau dysgu rydych wedi'u cyflawni.

Asesu eich cyfnod sefydlu

Bydd eich rheolwr yn asesu'ch cynnydd drwy'r cyfnod sefydlu i sicrhau eich bod yn deall ac yn gallu defnyddio'r hyn rydych wedi'i ddysgu wrth ymarfer, a'ch bod yn cyrraedd lefel foddhaol yn eich gwaith.

Bydd disgwyl i'ch rheolwr:

- gytuno a chynllunio sut y byddwch chi'n cael eich asesu gyda chi. Bydd hyn yn cyd-fynd â phroses cyfnod prawf eich sefydliad hefyd, os oes ganddo un
- eich arwain i gasglu tystiolaeth o'r hyn rydych wedi'i ddysgu a sut mae hyn yn cael ei gofnodi
- cyfarfod â chi'n rheolaidd gydol y cyfnod sefydlu i sicrhau eich bod yn cael adborth, arweiniad a chymorth yn rheolaidd
- eich helpu i gwblhau'r log cynnydd sy'n cofnodi'r canlyniadau dysgu rydych wedi'u cyflawni a sut y cawsant eu hasesu.

Enghraifft o log cynnydd

Tystiolaeth a ddefnyddiwyd	Aseswyd gan bwy a phryd	Llofnodion a dyddiad
<p>Defnyddio cofnod o dystiolaeth i ddangos eich bod wedi cyflawni'r canlyniad dysgu.</p> <p>Os oes gennych chi dystiolaeth addas o ddysgu neu sgiliau blaenorol sy'n ymdrin â'r canlyniadau dysgu, dylid eu cofnodi yn y golofn hon. Gall y rhain gynnwys tystysgrifau / cymwysterau e.e. Pasbort Symud a Thrafod Cymru Gyfan.</p>	<p>Gall rheolwr, arweinydd tîm neu aelod priodol o staff wneud hyn.</p> <p>Os oes gennych chi dystiolaeth briodol o ddysgu blaenorol nodwch deitl y dystysgrif / cymhwyster yma, ynghyd ag enw'r sefydliad dyfarnu a dyddiad ennill y dyfarniad.</p>	<p>Dylech chi a'ch rheolwr lofnodi a nodi'r dyddiad yma i gadarnhau bod canlyniadau dysgu wedi'u cyflawni'n llwyddiannus.</p> <p>Bydd llofnod eich rheolwr yn cadarnhau ei fod wedi gweld a derbyn unrhyw dystysgrif / cymhwyster fel tystiolaeth o ddysgu blaenorol hefyd.</p>

Asesu fel rhan o gymhwyster

Os ydych yn defnyddio'r gweithlyfrau fel tystiolaeth tuag at eich cymhwyster bydd angen i hynny gael ei asesu'n ffurfiol. Bydd eich rheolwr yn eich helpu chi.

Gweithlyfrau

Datblygwyd cyfres o saith gweithlyfr i'ch helpu chi gyda'ch dysgu.

Os ydych yn gweithio gydag oedolion bydd angen i chi gwblhau gweithlyfrau 1, 3, 5, 6 a 7. Os ydych yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc bydd angen i chi gwblhau gweithlyfrau 2, 4, 5, 6 a 7. Mae pob gweithlyfr yn cwmpasu 'gwybodaeth graidd' a chanlyniadau dysgu ymarfer ychwanegol sy'n dangos sut rydych chi'n defnyddio'r wybodaeth hon yn eich gwaith. Os ydych yn gyflogedig, mae angen i hyn fod yng nghyd-destun eich swydd. Gellir cwblhau'r wybodaeth graidd naill ai cyn i chi ddechrau yn eich swydd (cyn cyflogaeth) neu pan fyddwch yn dechrau eich swydd. Dylid cwblhau'r fframwaith sefydlu o fewn chwe mis i'ch dyddiad cychwyn os ydych yn gyflogedig.

Defnyddio'r gweithlyfrau

Efallai y byddwch chi'n gweld eich bod yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng gweithlyfrau yn sgil trefn eich hyfforddiant yn y cyfnod sefydlu. Mae hyn yn iawn ond rydym yn argymhell y dylech ddechrau dysgu drwy gwblhau'r ymarfer cyntaf yng ngweithlyfr un a dau gan y bydd hyn yn helpu i roi gweddill y dysgu mewn cyd-destun.

Mae'r gweithlyfrau'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu ac asesu a restrir uchod ac yn defnyddio astudiaethau achos a chlipiau ffilmiau i ysgogi a helpu'r dysgu. Fe'u bwriadwyd i'w defnyddio fel adnodd ar y we, pdf y gellir ei olygu a fersiwn word blaen.

Byddwch angen sicrhau bod gennych fynediad i gyfrifiadur a'r rhyngwrwyd i ddefnyddio fersiwn y we o'r fframwaith sefydlu.

Mae'r gweithlyfrau'n cynnwys lle i chi gofnodi'r hyn rydych yn ei ddysgu wrth fynd ymlaen ac i'r rheolwr gofnodi ei adborth. Gallai eich rheolwr neu gyflogwr ddefnyddio gweithgareddau dysgu neu astudiaethau achos eraill yn ogystal â'r rhai yn y gweithlyfr. Cofiwch gofnodi unrhyw ddysgu ychwanegol fel y gellir ei ddefnyddio tuag at y cymhwyster.

Os ydych chi'n cwblhau'r gweithlyfr hwn cyn dechrau gweithio, bydd yna rai cwestiynau na allwch chi eu hateb eto. Gallwch gwblhau'r rhain pan fyddwch chi'n dechrau eich swydd newydd. Os oes gennych chi leoliad gwaith, mae yna adran ar ddiwedd pob gweithlyfr y dylech ei chwblhau.

Geirfa

Mae yna eirfa sy'n cwmpasu'r holl weithlyfrau ac sy'n darparu diffiniadau o'r termau a ddefnyddir. Bydd unrhyw beth sydd wedi'i farcio mewn **teip trwm** yn cael ei gynnwys yma. Mae yna ddolenni a chyfeiriadau a allai fod yn ddefnyddiol ar ddiwedd y ddogfen hefyd. Efallai bod rhai o'r cyhoeddiadau y gofynnwn i chi edrych arnynt wedi'u cyhoeddi gan Gofal Cymdeithasol Cymru neu GIG Cymru. Oni bai ein bod ni'n nodi fel arall bydd y rhain yr un mor berthnasol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth i chi fynd drwy'r gweithgareddau dysgu yn y gweithlyfr bydd angen i'ch rheolwr gyfarfod â chi i weld sut mae pethau'n mynd a thrafod unrhyw gymorth neu gefnogaeth ychwanegol angenrheidiol. Bydd yn cwblhau'r log cynnydd gyda chi a darparu cymorth os oes unrhyw fylchau.